Cyflwyno'r DDEDDF TRWYDDEDU

Rhoi gwybodaeth i chi yn ystod y broses o weithredu Deddf Trwyddedu 2003.

CHWEFROR 2005

Cant wyth deg...!

Ia, dyna faint o ddiwrnodau sydd ar ôl i newid eich trwydded ar ôl 7 Chwefror, felly does dim angen poeni! Yn dilyn ymgynghori cyhoeddus llynedd, sefydlodd yr Ysgrifennydd Gwladol y Rheoliadau dan Deddf Drwyddedu 2003 ar 13 Ionawr. Mae'r Rheoliadau'n darparu gwybodaeth ynghylch sut bydd y gyfundrefn drwyddedu newydd yn gweithredu a sut daeth i rym ar 7 Chwefror. Sefydlwyd lefel y ffioedd ar 20 Ionawr. Dyma'r darnau olaf o'r jig-so yn eu lle. Ydych chi'n barod ar gyfer y newidiadau mewn trwyddedu?

Mae mwy o wybodaeth am y rheoliadau a lefelau ffioedd yn y cylchlythyr hwn.

Mae copïau o'r rheoliadau a'r ffurflenni ar gael i'w hargraffu neu i'w llwytho i lawr o wefan y DCMS: www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment

Cyfrifoldeb am Yfed

Datgelwyd y ddogfen ymgynghori ar y cyd, 'Cyfrifoldeb am Yfed: Cynigion y Llywodraeth' ar 21 Ionawr gan Tessa Jowell yr Ysgrifennydd dros Ddiwylliant a Gweinidog y Swyddfa Gartref Hazel Blears. Daw'r ddogfen hon yn sgil tystiolaeth o'r 'ymgyrchoedd gorfodaeth camddefnyddio alcohol' a fu'n ddiweddar ac mae'n cyflwyno cynlluniau'r Llywodraeth ar ddelio ag yfed dan oed a goryfed yn gymdeithasol. Mae'n adeiladu ar y mesurau a amlinellir yn Strategaeth y Llywodraeth ar Leihau Niwed yn sgil Alcohol ar gyfer Lloegr, a'r pwerau llym newydd fydd yn bodoli dan Ddeddf Drwyddedu 2003. Mae'r mesurau arfaethedig yn cynnwys:

- 'Mannau o Anhrefn yn sgil Alcohol' newydd i adennill y costau am blismona'r eiddo sy'n achosi'r anhrefn mwyaf.
- Gorchmynion gwahardd am 24 awr ar werthu alcohol ar gyfer mangre sy'n gwerthu alcohol yn gyson i rai dan oed.
- 'Gorchmynion Gwahardd Yfed' ar gyfer unrhyw un sydd wedi derbyn tri hysbysiad cosb benodol, neu gollfarnau troseddol sy'n ymwneud ag alcohol neu anhrefn.
- Ymestyn hysbysiadau cosb benodol i gynnwys pobl ifanc sy'n ceisio prynu alcohol dan oed a staff mewn mangre drwyddedig sy'n gweini pobl sy'n feddw.
- Adolygu'r cosbau sy'n gysylltiedig â throseddu'n sgil alcohol er mwyn sicrhau bod y cosbau cywir yn bodoli.
- Cefnogi cod ymarfer y diwydiant alcohol, sy'n rhoi arweiniad i berchnogion a gweithredwyr ar wahardd ymgyrchoedd yfed anghyfrifol.

Gelir cael copïau o 'Cyfrifoldeb am Yfed: Cynigion y Llywodraeth' o wefan y Swyddfa Gartref: www.homeoffice.gov.uk/inside/consults/current/index.html

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng 21 Ionawr a 28 Chwefror 2005.

Targedodd 'Ymgyrch Gorfodaeth Camddefnyddio Alcohol' y Nadolig a gydlynwyd gan Uned Safonau'r Heddlu y Swyddfa Gartref a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), anhrefn sy'n codi yn sgil alcohol ac yfed dan oed mewn 188 o gymunedau drwy'r wlad. Yn ystod bythefnos olaf Rhagfyr, cynhaliwyd ymgyrchoedd dirybudd i bron i 1,000 mangre drwyddedig, rhoddwyd hysbysiadau cosb benodol i bron i 4,000 o bobl oedd yn creu helynt a chymerwyd alcohol oddi wrth fwy na 1,800 o oedolion a phobl ifanc. I gael mwy o wybodaeth am yr ymgyrch, ewch i: www.policereform.gov.uk/psu

Bydd pob rhifyn o Cyflwyno'r Ddeddf Trwyddedu yn cynnwys 'Cwestiynau Cyffredin'. Yn y rhifyn hwn rydym yn trafod materion trosiannol

C. *Rydw i'n byw ar y ffin â'r Alban, ond rwy'n rhedeg tafarn yn Lloegr. Lle ydw i'n gwneud cais am fy nhrwydded bersonol?*

A. Fel arfer, dylid anfon ceisiadau am drwydded bersonol i'r awdurdod trwyddedu yn yr ardal y mae'r ymgeisydd yn byw ynddi. Mewn achosion lle nad yw'r ymgeisydd fel arfer yn byw yn Lloegr a Chymru, gellir anfon y cais i unrhyw awdurdod trwyddedu. Ar ôl rhoi trwydded bersonol mewn awdurdod trwyddedu arbennig, bydd yn ddilys i'w defnyddio yn rhywle yn Lloegr a Chymru.

C. *A yw'n bosibl newid 'tystysgrifau oriau swpera'; 'trwyddedau preswyl ar gyfer gwestai' neu 'Ran IV o drwydded breswyl ar gyfer tai bwytai a gwestai' dan hawliau taid neu a fydd yn rhaid i ymgeiswyr amrywio i ddarparu'r un gwasanaeth ag sydd ganddynt ar hyn o bryd?*

A. Bydd mangre â 'thystysgrifau oriau swpera', 'trwydded breswyl ar gyfer gwesty neu 'Ran IV o drwydded breswyl ar gyfer tai bwytai a gwestai' mewn grym ar 7 Chwefror yn gallu newid y drwydded neu dystysgrif honno, ac unrhyw amodau ynghlwm â hi, dan hawliau taid. Bydd angen i ymgeiswyr amrywio eu trwydded os ydynt am gael gwared ag unrhyw amodau o unrhyw drwydded mangre sydd wedi'i newid.

C. *Lle mae'n bosibl cael ffurflen gais?*

A. Mae ffurflenni cais ar gael gan eich awdurdod trwyddedu (gan amlaf eich awdurdod lleol). Gall awdurdodau trwyddedu hefyd ddarparu copïau electronig o'r ffurflenni ar eu gwefan. Bydd ffurflenni ar gael hefyd ar wefan y DCMS. Rhaid gwneud cais am ffurflenni cais ar gyfer trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb, ac ar gyfer datganiadau dros dro, i'r awdurdod trwyddedu y mae'r fangre wedi'i lleoli ynddo. Ond ni all awdurdodau trwyddedu wrthod unrhyw gais neu hysbysiad oherwydd bod y cais/hysbysiad wedi'i gael gan awdurdod trwyddedu arall neu o wefan y DCMS, ond sy'n cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau.

C. *A all awdurdodau trwyddedu ofyn cwestiynau ychwanegol?*

A. Gall awdurdod trwyddedu ofyn cwestiynau ychwanegol i'r ymgeisydd, ond pan nad yw'n ofynnol yn ôl y Ddeddf i'r wybodaeth honno gael ei darparu, ni allant wrthod y cais am i'r ymgeisydd fethu â'i darparu.

C. *Pa oriau penodol a ganiateir (y gellir felly eu haddasu) pan fydd y clociau'n newid ar ddiwedd Amser Haf Prydain?*

A. Dan y gyfraith bresennol, os yw trwydded bresennol â thystysgrif oriau arbennig i weini hyd 2 a.m. a bod y cloc yn symud ymlaen o 1:59 a.m. i 3 a.m. dan Amser Haf Prydain, mae darpariaeth i gyfnewid cyfeiriadau i oriau a ganiateir o 2 a.m. i 3 a.m. ar gyfer y noson honno'n unig. Mae hyn yn golygu nad yw trwyddedai'n torri'r gyfraith am weini tan 3 a.m. oherwydd bod y clociau wedi newid. Bydd modd newid y ddarpariaeth hon dan hawliau taid i'r holl rai â thystysgrif oriau arbennig ar hyn o bryd, gan ei fod yn rhan o'u horiau presennol. Er hynny, ni fydd hyn yn berthnasol i geisiadau newydd a wneir ar ôl y dydd cyntaf a enwyd, felly bydd yn rhaid i ymgeiswyr gymryd hyn i ystyriaeth yn eu hatodlenni gweithredu.

C. *Os bydda i'n newid fy ar-drwydded ynadon a thystysgrif plant, ac yna y diddymir fy nhrwydded bresennol yn ystod y cyfnod trosiannol, beth fydd yn digwydd i fy nhrwydded sydd newydd ei newid?*

A. Mewn amgylchiadau fel hyn, bydd y drwydded mangre newydd sydd wedi'i chaniatáu, yn mynd yn ddi-rym yn awtomatig.

C. *Ydw i angen cynnwys mannau yfed ar fy nghynlluniau yn ystod y cyfnod trosiannol?*

A. Yn ystod y cyfnod trosiannol, rhaid i gais i newid ar-drwydded ynadon yn drwydded mangre a chais i newid tystysgrif clwb presennol, gael ei gyflwyno gyda chynllun o'r safle sy'n dangos y lleoliad(au) yn y fangre a ddefnyddir i yfed alcohol yn y fangre drwyddedig. Pan wneir ceisiadau newydd am drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb, ni fydd gofynion o'r fath yn y cynlluniau. Yn hytrach, bydd angen disgrifiad ysgrifenedig ar y ffurflen gais.

C. *Os caniatawyd trwydded ynadon dros dro cyn y dydd cyntaf a enwyd, oes raid i mi wneud cais am drwydded newydd, neu alla i newid y drwydded dros dro yn ystod y cyfnod trosiannol?*

A. Os nad yw'r drwydded ynadon a ganiatawyd dros dro wedi'i datgan yn derfynol cyn 7 Chwefror 2005, neu mewn achosion lle bo'r drwydded ynadon dros dro wedi'i chaniatáu ar ôl y dydd cyntaf a enwyd, bydd angen i ymgeiswyr wneud cais am drwydded fangre newydd ac ni fydd yn bosibl newid y drwydded a ganiatawyd dros dro. Er hynny, yn y sefyllfa hon, lle nad yw'r drwydded ynadon dros dro a ganiatawyd wedi'i datgan yn derfynol, a bod y fangre wedi'i chwblhau mewn modd sy'n cydymffurfio'n sylweddol â chynlluniau a adneuwyd dan Ddeddf 1964, neu gyda diwygiadau a ganiateir dan adran 6(3) o'r Ddeddf honno, yna rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi ystyriaeth i'r drwydded ynadon a ganiatawyd dros dro wrth benderfynu ar gais i gyflwyno trwydded mangre. Bydd y ddarpariaeth arbennig hon yn dod i ben ar ben-blwydd cyntaf yr ail ddydd a enwyd.

C. *Pryd fydd yn rhaid i mi dalu fy ffi flynyddol?*

A. Bydd y ffi flynyddol ar gyfer trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb yn daladwy bob blwyddyn ar ben-blwydd y dyddiad y caniatawyd y drwydded neu'r dystysgrif.

C. *Fydd y DCMS yn paratoi canllawiau ar gyfer ymgeiswyr?*

A. Mae'r DCMS yn bwriadu paratoi canllawiau ar gyfer ymgeiswyr, fydd ar gael yn fuan i'w hargraffu neu eu llwytho i lawr o wefan y DCMS. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg hefyd. Mae yna hefyd nifer o ddogfennau eraill sy'n rhoi canllawiau er mwyn helpu aelodau penodol o'r diwydiant, neu awdurdodau cyfrifol baratoi ar gyfer y newidiadau, a bydd y DCMS yn gwneud rhestr o'r gwahanol 'ddogfennau canllawiau' sydd ar gael ar eu gwefan.

Newidiadau trwyddedu

Ar 7 Chwefror achredwyd y 2 gymhwyster trwydded bersonol cyntaf gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan Ddeddf 2003, sef:

- BIIAB Lefel 2 Tystysgrif Genedlaethol ar gyfer Deiliaid Trwydded Bersonol. I gael mwy o wybodaeth ewch i www.bii.org; a
- GOAL Lefel 2 Tystysgrif ar gyfer Deiliaid Trwydded Bersonol. I gael mwy o wybodaeth anfonwch e-bost: customerservice@ediplc.com

Bydd angen i ymgeiswyr am drwyddedau personol sydd heb hawliau taid neu eithriad gael cymhwyster achrededig yn gyntaf. Nod y cymhwyster yw sicrhau bod deiliaid trwydded yn ymwybodol o'r ddeddf drwyddedu a'r cyfrifoldebau cymdeithasol ehangach ynghlwm â gwerthu alcohol.

Cyngor y Ddeddf Drwyddedu

LACORS

Mae LACORS yn paratoi set o daflenni ar gyfer 'awdurdodau cyfrifol' a swyddogion trwyddedu. Mae'r taflenni'n cynnwys gwybodaeth am rôl pob awdurdod cyfrifol; er enghraifft y math o sylwadau a wneir ganddynt; a beth ddylent fod yn ei wneud yn awr i baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Mae taflenni ar wahân ar gael ar gyfer:

- awdurdodau tân;
- yr heddlu;
- iechyd a diogelwch;
- asiantaethau morol; a
- gwasanaethau cymdeithasol

Mae dogfen o ganllawiau mwy cynhwysfawr am ddyletswyddau amddiffyn plant dan y Ddeddf hefyd wedi'i pharatoi, a bydd dogfen debyg ar gyfer asiantaethau gorfodaeth iechyd a diogelwch ar gael yn fuan hefyd. Mae LACORS hefyd wedi paratoi 'Canllawiau i Aelodau' a 'Chanllawiau i Bwyllgorau' ac maent yn y broses o baratoi taflen ar gyfer swyddogion Safonau Masnach. Mae'r taflenni a'r canllawiau ar gael i awdurdodau lleol ac awdurdodau atebol drwy wefan LACORS: www.lacors.gov.uk, neu drwy anfon e-bost: daren.atkinson@lacors.gov.uk.

Cymdeithas Win a Gwirodydd

Mae'r Gymdeithas Win a Gwirodydd (WSA) hefyd yn paratoi canllawiau am y Ddeddf Drwyddedu. Mae pedair dogfen ar wahân yn cynnwys canllawiau yn cael eu paratoi:

- Canllaw i werthwr o bell (sy'n gwerthu naill ai ar y ffôn, archebu drwy'r post neu'r rhyngrwyd)
- Canllaw mân-werthwr
- Canllaw cyfanwerthwr
- Canllaw cynhyrchydd gwin

Byddant ar gael am ddim i aelodau, ac am ffi i rai nad ydynt yn aelodau, o wefan y WSA: www.wsa.org.uk.

Beth mae'r rheoliadau'n eu dweud

Cyflwynwyd y Rheoliadau gerbron y Senedd ar 13 Ionawr gan ddarparu gwybodaeth ynglŷn â sut bydd y gyfundrefn drwyddedu newydd yn gweithredu. Mae rhai o agweddau'r Rheoliadau wedi'u hamlinellu isod.

Mae'r rheoliadau sy'n ymwneud â thrwyddedau personol yn nodi unigolion na fydd yn ofynnol iddynt gael cymhwyster trwydded bersonol er mwyn bod yn gymwys i gael trwydded bersonol. Maent hefyd yn egluro y dylai ceisiadau am drwydded bersonol gynnwys tystysgrif a gyhoeddwyd dan Ddeddf yr Heddlu 1997 neu yn sgil chwiliad mynediad i bwnc dan Ddeddf Diogelu Data 1998(b) o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu gan y Gwasanaeth Adnabod Cenedlaethol.

Mae'r rheoliadau sy'n ymwneud â thrwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb yn amlinellu'r dogfennau a'r wybodaeth y mae'n rhaid eu cynnwys gyda cheisiadau, fel cynlluniau eiddo a chynnwys y cynlluniau hynny. Un o'r prif newidiadau o'r rheoliadau drafft yw na fydd yn ofynnol i ddangos ym mhle bydd alcohol yn cael ei yfed mewn mangre drwyddedig. Yn hytrach bydd angen cyflwyno disgrifiad ysgrifenedig gyda'r ffurflen gais. Er hynny, ni fydd hyn yn berthnasol pan fo trwyddedau presennol yn cael eu newid yn ystod y cyfnod trosiannol.

Gwahaniaeth pwysig arall yw na fydd angen bellach i awdurdodau trwyddedu hysbysebu adolygiadau mewn papurau newydd a ddosberthir mewn ardaloedd lleol. Er hynny, bydd angen o hyd i geisiadau i ganiatáu neu amrywio trwydded mangre neu i amrywio trwydded mangre, tystysgrif mangre clwb a datganiadau dros dro gael eu hysbysebu mewn papurau newydd lleol.

Mae un newid pwysig arall yn cadarnhau na fydd Maer Llundain (a meiri tebyg eraill) a Phartneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn yn awdurdodau cyfrifol, ac yn eu lle bydd Archwilwyr Pwysau a Mesurau (swyddogion safonau masnach).

Mae'r rheoliadau ar gyfer gwrandawiadau'n cadarnhau'r cyfnod o amser y dylid cynnal gwrandawiadau; y wybodaeth i gyd-fynd â hysbysiadau o wrandawiadau a'r camau i'w cymryd gan bartïon wrth dderbyn hysbysiadau o'r fath. Maent hefyd yn nodi rhai gweithdrefnau y dylid eu dilyn mewn gwrandawiadau.

Deddf Drwyddedu 2003 – Prif elfennau o ran lefelau ffioedd

Band	A	B	C	D	E
Gwerth ardrethol annomestig	Dim-£4,300	£4,301-£33,000	£33,001-£87,000	£87,001-£125,000	£125,001 +
Trwyddedau Mangre*					
Newid, cais newydd ac amrywiad (ac eithrio'n ymwneud ag alcohol yn ystod y cyfnod trosiannol)	£100	£190	£315	£450	£635
Defnyddio lluosydd ar gyfer eiddo a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf i gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle (Bandiau D + E yn unig)	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	X2 (£900)	X3 (£1905)
Ffi ychwanegol ar gyfer amrywio yn ymwneud ag alcohol yn ystod y cyfnod trosiannol	£20	£60	£80	£100	£120
Ffi flynyddol*	£70	£180	£295	£320	£350
Defnyddio lluosydd ar gyfer eiddo a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf i gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle (Bandiau D + E yn unig)	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	X2 (£640)	X3 (£1050)
Tystysgrifau Mangre Clwb					
Newid, cais newydd ac amrywiad	£100	£190	£315	£450	£635
Taliad blynyddol	£70	£180	£295	£320	£350
Trwydded bersonol	**£37**	Hysbysiad digwyddiad dros dro			**£21**

*Mae ffioedd ychwanegol ar gyfer ceisiadau am drwydded mangre a ffi flynyddol, ar gyfer digwyddiadau ar raddfa arbennig o fawr (5,000 o bobl +), oni bai bod rhai amodau'n berthnasol. Darllenwch 4(4) a 4(5) o Reoliadau (Ffioedd) 2005 Deddf Drwyddedu 2003.

Pennir ffioedd ychwanegol ar gyfer ceisiadau trwydded mangre a'r ffi flynyddol, ar gyfer digwyddiadau ar raddfa arbennig o fawr

Nifer yn bresennol ar unrhyw adeg	Ffi ychwanegol sy'n daladwy	Ffi flynyddol sy'n daladwy os wy'n berthnasol
5,000–9,999	£1,000	£500
10,000–14,999	£2,000	£1,000
15,000–19,999	£4,000	£2,000
20,000–29,999	£8,000	£4,000
30,000–39,999	£16,000	£8,000
40,000–49,999	£24,000	£12,000
50,000–59,999	£32,000	£16,000
60,000–69,999	£40,000	£20,000
70,000–79,999	£48,000	£24,000
£80,000–89,999	£56,000	£28,000
£90,000 a throsodd	£64,000	£32,000

Mae'n ofynnol yn ôl y gorchymyn trosiannol bod trwyddedau a thystysgrifau sydd wedi'u newid yn cael eu caniatáu gydag amodau sy'n cynnwys unrhyw gyfyngiad a orfodir gan ddeddfiadau arbennig a nodir gan y gorchymyn.

Mae'r rheoliadau sy'n ymwneud â chofrestri trwyddedu'n nodi'r wybodaeth a'r dogfennau ychwanegol y mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu eu cadw. Mae'r wybodaeth ychwanegol yn ymwneud yn bennaf ag atodlenni gweithredu, atodlenni gweithredu clwb a chynlluniau sy'n cyd-fynd â cheisiadau. Ond yng nghyd-destun ceisiadau a wneir yn ystod y chwe mis cyntaf, mae'n ofynnol hefyd y cedwir cofnod o'r gweithgareddau trwyddedadwy presennol sydd wedi'u hawdurdodi gan drwyddedau a thystysgrifau a chynlluniau eiddo a newidiwyd sy'n cyd-fynd â cheisiadau.

Mae'r Dydd Cyntaf a Enwyd erbyn hyn wedi cyrraedd, gan nodi dechrau'r diwedd ar ein deddfau trwyddedu sydd wedi dyddio. Mae wedi cymryd bron i 18 mis i gyrraedd y sefyllfa hon ac mae llawer o waith caled wedi'i wneud gan bawb sydd wedi bod yn rhan o'r newidiadau. Rwyf yn gwybod y bydd y cyfnod trosiannol yn sialens i ni, ond rwyf yn hyderus y bydd ymroddiad a phroffesiynoldeb y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith yn helpu i sicrhau y bydd y gyfundrefn drwyddedu newydd yn llwyddiant. Pob dymuniad da gyda'ch ymdrechion.

Yn sgil yr ymgynghori ar lefelau ffioedd, cafwyd dros 400 ymateb a chawsom well darlun o gostau tebygol y gyfundrefn newydd. Y brif elfen a ganfuwyd oedd bod lefel gyffredinol y ffioedd mangre – y brif ffynhonnell incwm ar gyfer awdurdodau trwyddedu – yn annigonol i adennill costau gweinyddu, archwilio a gorfodaeth y gyfundrefn newydd. O ganlyniad bu tueddiad i godi lefel ffioedd mangre yn gyffredinol.

Cawsom ein perswadio hefyd bod eiddo mwy sy'n gweini alcohol yn bennaf angen lefelau uwch o archwilio a gorfodaeth a'u bod yn fwy tebygol o gyflwyno sylwadau a chostau yn sgil hynny i'r awdurdodau trwyddedu. Dyna pam y penderfynom weithredu lluosydd ym mandiau D ac E a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf i gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle.

Ond ni chynyddwyd yr holl ffioedd.
Bu gostyngiad yn y ffioedd ychwanegol arfaethedig ar gyfer y digwyddiadau mwyaf er mwyn adlewyrchu'n well y dystiolaeth ar gael. Nid yw digwyddiadau mawr nad ydynt yn drwyddedadwy, fel sioeau amaethyddol neu gefn gwlad neu ddigwyddiadau chwaraeon awyr agored, yn debygol o gael eu heffeithio gan y ffi ychwanegol ar gyfer digwyddiadau mawr. Os byddant yn cynnwys gweithgareddau trwyddedadwy, rydym yn hyderus y gellir trwyddedu'r rheini ar wahân, heb achosi'r ffi ychwanegol.

Lleisiwyd rhai pryderon am y ffaith nad yw Deddf 2003 yn caniatáu i awdurdodau lleol ostwng neu hepgor y ffi ar gyfer gweithgareddau cymunedol neu wirfoddol ar raddfa fawr. Ond os yw awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn dewis hepgor y ffioedd, gallant barhau i roi cymhorthdal i ddigwyddiadau drwy ddulliau eraill, fel taliadau mewnol neu gymhorthdal uniongyrchol.

Roedd yr ymgynghori ar ffioedd yn ymgynghori gwirioneddol ac rydym wedi gwrando ar y dystiolaeth a gafwyd. Tra fy mod yn hyderus ein bod wedi cael y cydbwysedd cywir, rydym yn dal wedi ymrwymo i adolygiad annibynnol 12 mis ar ôl i'r gyfundrefn newydd weithredu'n llawn. Os bydd hwn yn canfod bod y ffioedd yn rhy isel neu uchel, byddwn yn eu haddasu'n unol â hynny.

Y Sefydliad yn Goleuo Blackpool

Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol y Sefydliad Trwyddedu, y bydd ei haelodau wrthi'n ddyfal yn gweithredu Deddf 2003 yng Ngwesty'r Imperial, Blackpool ddiwedd Tachwedd.

Roedd 160 o gynrychiolwyr yn bresennol yn y gynhadledd a agorwyd yn swyddogol gan Faer Blackpool, y Cynghorydd Mrs Maxine Callow YH. Y prif siaradwr oedd John Denham AS (Cadeirydd Pwyllgor Dethol Materion Cartref). Cafwyd cyflwyniadau gan 34 o arbenigwyr gan gynnwys:

- yr Ymddiriedolaeth Ddinesig, Cymdeithas Trigolion Canol Norwich a Rhwydwaith Cymdeithasau Trigolion ar atal niwsans;
- Pat Varley o Ganolfan Lleihau Trosedd y Swyddfa Gartref ar leihau trosedd mewn mangre drwyddedig;
- Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerhirfryn ar ddiogelwch tân; Cyngor Mendip ar drwyddedu Gŵyl Glastonbury dan y Ddeddf, a Julian Bentley o MRL Cyf ar bwysigrwydd cydlynwyr diogelwch mewn digwyddiadau ar raddfa fawr; a
- Michael O'Connor o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, a gyflwynodd rai canllawiau newydd i awdurdodau trwyddedu ar amddiffyn plant rhag niwed, a baratowyd ar y cyd â LACORS.

Bu Brigid Simmonds o Business in Sport and Leisure; Malcolm Eidmans o National Pubwatch; a Gillian Anderson a Frank Fender o gynllun Bed:Safe yn disgrifio sut gallai awdurdodau trwyddedu weithio'n glos gyda'r fasnach drwyddedu. Canolbwyntiodd sesiynau eraill ar feysydd fel gweithdrefnau pwyllgor, adolygiadau barnwrol a niwsans sŵn statudol. Gofynnwyd cwestiynau am iechyd ac effeithiau eraill alcohol gan Alcohol Concern, a lansiodd yn ddiweddar becyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol, a Sefydliad Astudiaethau Alcohol.

Yn ystod y gynhadledd, manteisiodd cynrychiolwyr ar y cyfle i siarad ag arddangoswyr gan gynnwys cynrychiolwyr o dimau trwyddedu a gamblo y DCMS.

Mae aelodaeth o'r sefydliad ar gael i unrhyw un â diddordeb mewn trwyddedu.
I gael mwy o wybodaeth ewch i:
www.instituteoflicensing.org neu ebostiwch licensing_circles@hotmail.com

Paratoi ar gyfer newid

Mae Mitchells & Butlers (Six Continents Retail and Bass Taverns gynt) yn gweithredu dros 2,000 o dafarndai a thai bwyta rheoledig ac mae'n cyflogi dros 38,000 o bobl. Mae ei frandiau'n cynnwys O'Neills, All Bar One, Ember Inns, Harvester, a Vintage Inns.

Dywedodd Cyfarwyddwr Risg a Chydymffurfio, Andy Smith am baratoadau Mitchells and Butlers ar gyfer diwygio trwyddedu "Mae'r Cwmni'n croesawu'r cam o foderneiddio'r system drwyddedu ac mae ein paratoadau ar gyfer gweithredu'n mynd rhagddynt yn dda. Gan fod gennym 322 o Awdurdodau Lleol i ddelio â hwy, a chan nad oedd y ddeddfwriaeth eilaidd ar gael ynghynt mae'r her logistaidd gymaint yn fwy. Hefyd mae gennym bryderon bod nifer o bolisïau trwyddedu yn mynd y tu hwnt i'r pwerau a gyflwynir gan y Ddeddf sy'n golygu bod gwneud penderfyniadau a chyfathrebu'n fwy cymhleth."

Y prif feysydd lle bu gwaith paratoi hyd yma yw:

- Paratoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ceisiadau.
- Paratoi hyfforddiant ar gyfer deiliaid trwydded bersonol newydd.
- Cymryd rhan mewn arferion ymgynghori.
- Adolygu cyfleoedd a gynigir gan y gyfundrefn newydd.
- Paratoi'r cynllun cyfathrebu ar gyfer y busnes.

O gofio natur a phellter daearyddol sydd rhwng gwahanol leoliadau, mae Andy'n credu bod cyfathrebu a hyfforddiant o bwysigrwydd allweddol "Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn cael gwared ar yr hen fframwaith gyfarwydd â geirfa a rhaid i'n cynllun cyfathrebu ddelio â hyn. Bydd rheolwyr a'u timau'n cael eu briffio'n rheolaidd a threfnir mwy o weithdai cynhwysfawr ar y gweill yn haf 2005. Bydd deunyddiau hyfforddiant a chyfeirio presennol yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r Deddf newydd."

Fel adwerthydd rheoledig cenedlaethol, bydd ceisiadau ac atodlenni gweithredu'r Cwmni'n cael eu paratoi'n ganolog gyda chefnogaeth leol. Mae Andy'n hyderus y bydd y rhain yn adeiladu ar lwyddiant Mitchells and Butlers a ddyfarnwyd yn 'Adwerthwr Masnach Mwyaf Cyfrifol' yng Ngwobrau diweddar y Morning Advertiser. "Bydd ein gweithrediadau'n dangos sut mae polisïau a gweithdrefnau cadarn y Cwmni'n cefnogi'r Amcanion Trwyddedu ac yn adlewyrchu ein hymagwedd gyfrifol tuag at reoli ein busnesau."

"Mae disgwyl i 2005 fod yn flwyddyn llawn sialens i bawb sy'n ymwneud â'r diwydiant trwyddedu. Mae wedi cymryd amser hir iawn i gyrraedd y pwynt hwn, ond mae'r newidiadau ar y gweill a'n barn ni yw gorau po gyntaf y gallwn gychwyn y cyfnod trosiannol ffurfiol, a hynny i bawb."

Dyddiadur digwyddiadau

Chwefror
Lansio 'Cit Cerddoriaeth Fyw'. Dyddiad a man cyfarfod i'w drefnu [www.musiciansunion.org]

3 Mawrth
Seminar trwyddedu Sefydliad Cerddoriaeth Cymru, yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd [lisa@welshmusicfoundation.com]

12 – 13 Ebrill
Sioe Tai Bwyta a Bar 2005 yng nghanolfan y GMEX ym Manceinion [www.restaurantandbar.co.uk]

AMSERLEN ARFAETHEDIG AR GYFER GWEITHREDU

10 Gorffennaf 2003	7 Gorffennaf 2004	7 Ion 2005	13 Ion 2005	20 Ion 2005	7 Chwefror 2005	Mawrth 2005	6 Awst 2005	Tach 2005
Cafwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Trwyddedau 2003.	Y DCMS yn cyhoeddi canllawiau dan adran 182 o'r Ddeddf. Awdurdodau trwyddedu'n dechrau paratoi eu datganiadau polisi ac ymgynghori arnynt.	Cychwyn 'cyfnod tair blynedd'. Rhaid i Awdurdodau Trwyddedu fod wedi cyhoeddi eu datganiadau polisi trwyddedu erbyn y dyddiad hwn.	Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau (ac eithrio ffioedd), yn dilyn ymgynghori cyhoeddus (15 Medi – 10 Tachwedd 2004)	Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau yn dilyn ymgynghori cyhoeddus (4 Tachwedd – 23 Rhagfyr 2004)	**Dydd cyntaf a newydd.** Awdurdodau trwyddedu'n cychwyn prosesu ceisiadau.	Ymgynghori ar reoliadau drafft ar weithgareddau dros dro a ganiateir.	Dyddiad olaf y gall ymgeiswyr/clybiau arfer eu hawl i wneud cais i newid eu trwyddedau'n drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb.	**Ail ddydd a enwyd.** Diwedd yr hen ddeddfau trwyddedu. Trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb newydd yn dod i rym.

Rhifyn nesaf – Mawrth 2005. I gael mwy o wybodaeth am Ddeddf Trwyddedu 2003 a sut bydd yn effeithio arnoch, ewch i'n gwefan ar www.culture.gov.uk. Os oes gennych sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer erthyglau anfonwch e-bost: licensing.newsletter@culture.gsi.gov.uk.

Cynigir cynnwys y tudalennau hyn fel canllaw gwybodaeth yn unig. Nid ydynt yn ddatganiad llawn ac awdurdodol o'r gyfraith ac nid ydynt yn cynnwys cyngor proffesiynol neu gyfreithiol. Nid yw unrhyw ddatganiad ar y tudalennau hyn yn disodli, ehangu, diwygio neu newid mewn unrhyw ffordd ddarpariaethau statudol Deddf Trwyddedu 2003 nac unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol. Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon na'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon am unrhyw gamsyniad, esgeulustra neu ddatganiadau camarweiniol ar y tudalennau hyn, nac unrhyw safle y cyfeirir ato ar y tudalennau hyn. Dylid nodyn arbennig, er bod yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn gywir, mae newidiadau yn y gyfraith a'r ffyrdd gweithredu yn golygu na ellir gwarantu bod y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn gywir.